OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 1154 (Cy. 235)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Teras Tywi, Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros) 2018

*Gwnaed* *6 Tachwedd 2018*

*Yn dod i rym* *8 Tachwedd 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Teras Tywi, Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros) 2018 a daw i rym ar 8 Tachwedd 2018.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

### Gwahardd Aros

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochr ddwyreiniol y darn o'r gefnffordd o'r enw Teras Tywi, Ffair-fach yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 115 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei

(**1**) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

chyffordd â Teras y Rheilffordd hyd at bwynt 125 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod.

**Esemptiadau**

**4.** Nid fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darn hwnnw o'r gefnffordd; neu

(iv) (gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darn hwnnw o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir yn adran 10(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**2**);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn hwnnw o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu;

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu,

(**2**) 2003 p.21.

swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Tachwedd 2018

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru